CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Is-bwyllgor (awdurdodwyd yng nghyfarfod 14eg Gorffennaf, 2025) a gynhaliwyd **28ain Gorffennaf, 2025**, i lenwi'r cais am grant gan Gwynedd Ni. Cyfarfu yng Nghongl Meinciau, Botwnnog
Y Cynghorwyr Gwenan Griffiths (Cadeiryddes), Carys H. Evans, Elin Hughes, Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd) a'r Clarc.

Cwblhawyd y ffurflen gais gan nodi y byddai'r gôst o osod y lloches oddeutu £2,500 a'r costau cyfreithiol gyda'r Feddygfa oddeutu £2,500.

Penderfynwyd rhoddi hysbyseb yn yr hysbysfyrddau yn gwahodd tendrau am osod y lloches erbyn 29ain Awst, 2025.

Yn dilyn anfon y cais derbyniwyd ymateb gan Alys Rees Jones, Swyddog Prosiect Adfywio Trefi (Gwynedd Ni) yn gofyn am ddyfynbris am y gwaith llafur i osod y bws erbyn yr **8fed o Awst, 2025.**

Ail hysbysebwyd unwaith yn rhagor gan ofyn am dendr erbyn **7fed Awst, 2025.**

Derbyniwyd dau dendr, **ac ail ymgynnullwyd unwaith yn rhagor yng Nghongl Meinciau Nos Iau, 7fed Awst** (roedd Y Cynghorydd Elin Hughes yn absennol).
Agorwyd y ddau dendr – un gan J.A. Pozzi am £1,200 + TAW a'r pris arall gan Cybi Cyfyngedig am £3,200 + TAW.
Trafodwyd y ddau gais a **phenderfynwyd** derbyn pris Cybi Cyfyngedig o £3,200 + TAW o dan reol 18(e) o'r Rheoliadau Sefydlog:
"Nid oes rheidrwydd ar y Cyngor, na phwyllgor nac is-bwyllgor y dirprwywyd cyfrifoldeb iddo i ystyried tendrau, i dderbyn y tendr sy'n cynnig y pris isaf."

Penderfynwyd anfon y pris ymlaen at y Swyddog Prosiect ac ar ei chais ail wnaed rhan o'r ffurflen i ddangos:

Disgrifiad / *Description* Atodwch ddyfynbrisiau / esboniad cost / manylion caffael / *Please attach quotes / cost explanation / procurement details.*	**Costau (£) / *Cost (£)***
Costau cyfreithiol y Feddygfa	£2,100 + TAW
Gosod y lloches bws a'r gwaith cysylltiol	£3,200 + TAW
Cyfanswm / *Total*:	£5,300 + TAW